# WE ARE
# #CARDIFFMET

**Gwybodaeth am Ymsefydlu ac Ymrestru**

**BA (Anrh) Saesneg/Ysgrifennu Creadigol/Drama/Y Cyfryngau**

**YSGOL ADDYSG A PHOLISI CYMDEITHASOL**

**Blwyddyn Academaidd 2018/2019**

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# C O N T E N T S

1. Croeso gan eich Tîm Addysgu

2. Tasgau'r Haf / Tasgau Cyn Sefydlu

3. Cofrestru / Casglu Cerdyn Myfyriwr MetCard

4. Amserlen yr Wythnos Sefydlu

5. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Nodweddiadol

6. Dolenni Defnyddiol

## 1. Croeso gan eich Tîm Addysgu

Rydyn ni wrth ein bodd eich bod wedi dewis astudio yn Ysgol Addysg Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Hoffai tîm y staff eich croesawu i'ch astudiaethau. Pa gwrs bynnag fyddwch chi'n ei ddewis, bydd aelodau staff yma i'ch cynorthwyo i gyflawni'ch targedau. Yn ôl yr adborth yr ydyn ni wedi ei dderbyn yn y gorffennol, a gan fyfyrwyr presennol, mae ein cyrsiau yn ysgogol ac wedi'u trefnu'n dda a bod gan y tiwtoriaid wybodaeth gadarn o'r hyn y maen nhw'n ei addysgu ac yn frwd i'w myfyrwyr wneud yn dda – ac rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau mai dyna fydd eich profiad chi hefyd.

Yn ystod yr wythnos gyntaf, byddwch yn ymgyfarwyddo â'ch cwrs, eich tiwtoriaid, y campws a'r ddinas ac wrth gwrs yn gwneud ffrindiau newydd. Byddwch yn cwrdd â'r staff fydd yn eich addysgu ac, yn bwysig, yn cwrdd ag eraill yn eich grŵp blwyddyn. Byddwch hefyd yn dod i nabod eich tiwtor personol a fydd yn egluro eich amserlen i chi, gwirio bod popeth yn mynd yn iawn ac yn datrys unrhyw broblemau fydd gennych efallai.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at gwrdd â chi ac i'ch cynorthwyo i gyflawni eich nodau personol a gyrfaol.

## 2. Tasgau'r Haf / Tasgau Cyn-Sefydlu

**Llyfrau a argymhellir**

Mae gan bob modiwl restr ddarllen a argymhellir a rhestrir rhai o'r testunau isod. Mae'r rhan fwyaf o'r testunau hyn ar gael yn electronig drwy'r llyfrgell. Argymhellir, er nad yw'n orfodol, eich bod yn prynu'r testunau hynny.

**MODIWLAU CRAIDD**

- Cottrell S. (2013) *The Study Skills Handbook*. Basingstoke*:* Palgrave Macmillan.
- Pears, R. & Shields, G. (2013) *Cite Them Right: The Essential Referencing Guide*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.
- Hind, D.W.G. a Moss, S (2011) *Employability Skills*. Sunderland: Business Education Publishers Ltd.

**DRAMA**

- Mitter, S. & Shvetsova,M. (2005) *Fifty Key Theatre Directors.* London: Routledge
- Brook, P. (2008) *The Empty Space.* New York: Penguin

**SAESNEG**

- Barry, P. (2009) *Beginning Theory*. Manchester: Manchester University Press.
- Bennett, A. and Royle, N. (2004) *An Introduction to Literature, Criticism and Theory.* Harlow: Pearson Education. [esp. sections 'The Beginning', 'Narrative', and 'The End']
- Emily Bronte (2003) *Wuthering Heights*, ed. Linda Peterson. London: Palgrave.
- Plays by William Shakespeare we will study (any edition is fine): *Twelfth Night, The Taming of the Shrew. Hamlet, Romeo and Juliet*
- Spark, M. (2000) *The Prime of Miss Jean Brodie*. London: Penguin Classics
- Banks, I. (1992) *The Wasp Factory*. London: Abacus
- Morrison, T. (1999) *The Bluest Eye*. USA: Vintage
- McCarthy, C. (2010) *The Road*. London: Picador
- Spiegelman, A. (2003) *The Complete Maus*. London: Penguin Books
- Treadwell, S (1993) *Machinal*. UK: Nick Hern Books
- Churchill, C. (1989) *Cloud Nine*. UK: Nick Hern Books
- Marber, P. (1997) *Closer*. London: Methuen Drama

**YSGRIFENNU CREADIGOL**

- Astley, N. (ed.) (2002) *Staying Alive: Real Poems for Unreal Times*. Hexham: Bloodaxe.
- Burroway, J., Stuckey- French, E. and Stuckey- French, N. (2014) *Writing Fiction: A Guide to Narrative Craft*. USA: Pearson
- Gutkind, L. (1997) *The Art of Creative Nonfiction: Writing and selling the Literature of Reality*. New York: Wiley
- Moore, D.W. (2010) *Crafting the Personal Essay: A Guide for Writing and Publishing Creative Nonfiction*. Cincinatti: Writers' Digest Books

**Y CYFRYNGAU**

- Branston, G. and Stafford, R. (2010) *The Media Student's Book*, 5th ed. London: Routledge
- Long, P. & Wall, T. (2012) *Media Studies: Texts, Production and Context*. London: Longman

## 4. Cofrestru / Casglu Cerdyn Myfyriwr MetCard

Mae cofrestru yn broses bwysig sy'n cadarnhau eich statws fel Myfyriwr. Gallwch gwblhau'r broses hunangofrestru ar-lein o unrhyw gyfrifiadur drwy ein system Hunanwasanaeth. Noder er mwyn i chi gofrestru eich hun rhaid i'ch statws fod yn Ddiamod Cadarn. Er mwyn hunanymrestru, noder bod yn rhaid i'ch statws fod yn Ddiamod Cadarn a'ch gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Uwch wedi'i glirio a'i wirio gan yr Adran Derbyn.

Cewch neges e-bost yn eich hysbysu pan fyddwch yn gymwys i gofrestru ar-lein. Bydd y neges e-bost yn eich cyfeirio at gyfleuster ailosod cyfrinair er mwyn i chi ofyn am gyfrinair i'ch galluogi i fewngofnodi a chwblhau'r broses gofrestru. Er mwyn cael gwybodaeth ac arweiniad ar y broses hon gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'n tudalen gofrestru - www.cardiffmet.ac.uk/enrolment.

Mae'r broses hon yn hanfodol gan y bydd yn caniatáu i chi gael gafael ar eich benthyciad myfyriwr (os gwnaethoch gais am un), talu ffioedd, defnyddio systemau TG Met Caerdydd a chael eich MetCard.

Byddwch hefyd yn cael Llawlyfr y Rhaglen yn ystod yr Wythnos Sefydlu.

**Cofrestru ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol o'r tu allan i'r UE**

Os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol (o'r tu allan i'r UE), **ni fydd** angen i chi gofrestru ar-lein cyn cyrraedd Prifysgol Met Caerdydd. Mae hyn oherwydd ei bod yn ofyniad cyfreithiol i'r brifysgol wirio dogfennau mewnfudo myfyrwyr rhyngwladol cyn y caniateir iddynt gofrestru ar eu cyrsiau. I gael rhagor o wybodaeth am gofrestru fel myfyriwr rhyngwladol a rhestr o ddogfennau y bydd angen i chi ddod â nhw gyda chi, ewch i'r tudalennau myfyrwyr rhyngwladol neu cysylltwch â'r Tîm Cydymffurfiaeth Mewnfudo yn immigrationregs@cardiffmet.ac.uk Ffôn: 029 2041 5644.

**Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth**

Byddwch yn gallu defnyddio Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Met Caerdydd yn fuan ar ôl i chi gwblhau cofrestru ar-lein. Cewch neges e-bost yn cadarnhau hyn a fydd yn cynnwys eich manylion mewngofnodi i Met Caerdydd. Er mwyn gweld y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/library.

### Eich Cerdyn Myfyriwr MetCard

Nodir amser penodol i chi gasglu eich MetCard yn y wybodaeth am yr **Wythnos Sefydlu.** Mae eich MetCard yn rhoi mynediad i chi i holl brif adeiladau a drysau'r campws. Gallwch hefyd ychwanegu arian at eich MetCard er mwyn gallu talu am ddefnyddio'r argraffwyr hunanwasanaeth, copïwyr a gwasanaethau'r Stiwdio Argraffu. I gael rhagor o wybodaeth am fanteision MetCard cliciwch yma.

**Ffioedd**

Ffioedd eich rhaglen ar gyfer mis Medi 2018 yw £9,000. Os oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'ch rhaglen, byddant wedi'u rhestru ar www.cardiffmet.ac.uk/additionalcosts. Dylech eisoes fod yn ymwybodol o'r costau hyn.

## 5. Amserlen yr Wythnos Sefydlu

Bydd eich semester cyntaf fel myfyriwr newydd yn dechrau gyda'r Wythnos Sefydlu, lle byddwch yn ymgyfarwyddo â'ch llety, y cwrs a bywyd myfyriwr. Mae eich amserlen ar gyfer yr Wythnos Sefydlu yn cynnwys digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i ymgyfarwyddo â Met Caerdydd, y cyfleusterau a'ch cyd-fyfyrwyr. Byddwch yn cael y cyfle i fynd i amrywiaeth o ddigwyddiadau yn ymwneud â'ch cwrs, gwasanaethau llyfrgell, TG, gwasanaethau myfyrwyr ac undeb y myfyrwyr. Byddwch hefyd yn cwrdd â'ch tiwtor personol, ac yn cael sawl sesiwn gydag ef neu hi, i wneud y broses bontio academaidd mor esmwyth â phosibl.

Mae Ffair y Glas lle y gallwch gofrestru â nifer o gymdeithasau a chlybiau gwahanol, a digwyddiad cymdeithasol MetFest brynhawn dydd Gwener.

**Peidiwch ag anghofio cymryd rhan ar Twitter gyda ni yw** #metcaerdydd.

Os ydych yn newydd i Gaerdydd, bydd digon o gyfleoedd hefyd i chi grwydro'r ddinas, gwneud ffrindiau newydd ac ymgyfarwyddo â'ch bywyd newydd.

Mae'r Wythnos Sefydlu yn achlysur mawr ar y campws ac mae pawb yn cymryd rhan. Peidiwch â bod ofn stopio a gofyn - mae'r holl staff a myfyrwyr yn hapus i groesawu unrhyw un sy'n newydd ar y campws.

Mae eich amserlen digwyddiadau yn cael ei chwblhau ar hyn o bryd, a chaiff ei lanlwytho fel dogfen ar wahân ar ein tudalennau Myfyrwyr Newydd i chi.

## 6. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Arferol

Mae eich gradd yn cynnwys modiwlau ar wahân, pob un yn delio â phwnc gwahanol gyda'i gynllun cyflenwi ac asesu eu hun. Dadelfennir ffocws penodol pob modiwl i chi yn llawlyfr y modiwl a gewch ar Moodle. Mae mwyafrif y modiwlau naill ai'n werth 10 neu'n 20 credyd cyfwerth â 100 o oriau o astudiaeth academaidd. Mae hyn yn gyfuniad o sesiynau wedi'u hamserlennu'n ffurfiol ac astudiaeth annibynnol. Mae presenoldeb yn orfodol ymhob sesiwn a addysgir.

Cofiwch eich bod yn ymuno â chymuned ddysgu lle byddwch yn dysgu oddi wrth eich gilydd ac yn cynorthwyo'ch gilydd yn eich datblygiad academaidd ac wrth i chi ddatblygu sgiliau. Mae'n hanfodol felly, eich bod yn ymddwyn mewn modd proffesiynol ac yn gweithio ar eich astudiaethau a fydd yn hwyluso'ch cynnydd eich hun a chynnydd eraill. Os cewch unrhyw drafferth yn rheoli'ch amser a'ch baich gwaith yn effeithiol, yna gallwch drafod hyn gyda'ch Tiwtor Personol.

Cynhelir sesiynau a amserlennir rhwng 9am a 6pm, o ddydd Llun i Ddydd Gwener. Sylwer mai'r 'bwlch' rhwng y sesiynau a amserlennir ydy'r amser y dylech fod yn gwneud ymchwil personol ac yn astudio.

*D.S: Gall amserlenni newid , hyd at ac yn cynnwys cychwyn y tymor.*

Fel myfyriwr blwyddyn gyntaf, byddwch yn cael mynediad i'ch amserlen sydd wedi ei chadarnhau o'r Wythnos Sefydlu, sydd cyn yr wythnos gyntaf o addysgu.

Sylwer, y bydd rhaid i chi fod wedi cael eich ymrestru cyn y gallwch gael mynediad i'r wybodaeth hon. Os ydy'ch lle wedi'i gadarnhau ond nad ydych wedi cael gwybod y gallwch ymrestru, cysylltwch â'r Adran Dderbyn i gael gwybod beth sydd i'w wneud nesaf.

## 7. Dolenni Hanfodol

- Amserlen
  Bydd y ddolen hon yn rhoi mynediad at eich amserlen sydd wedi'i chadarnhau. Mae angen i chi fod wedi ymrestru cyn y gallwch agor y ddolen, a byddwn yn cysylltu â chi pan fydd y wybodaeth ar gael.

- Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
  Os yw'ch rhaglen chi'n golygu eich bod yn dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc neu bobl agored i niwed, byddwn wedi gofyn i chi gael gwiriad cofnodion troseddol fel rhan o'ch cynnig.

- Costau Ychwanegol Cyrsiau
  Costau ychwanegol yw'r costau gorfodol neu ddewisol, yn ychwanegol at ffioedd dysgu, y mae angen i fyfyrwyr eu talu er mwyn cymryd rhan yn llawn a chwblhau eu hastudiaethau. Maent yn cynnwys pethau fel cyfarpar, tripiau, lleoliadau a gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gan bob rhaglen wahanol gostau ychwanegol.

- Swyddfa Ryngwladol a Phartneriaethau
  Cyngor i fyfyrwyr rhyngwladol o'r tu allan i'r UE ar wneud eich cais am fisa, byw yn y DU, gwneud trefniadau llety neu fanteisio ar y Gwasanaeth Croesawu Maes Awyr. Bydd y Swyddfa Ryngwladol a Phartneriaethau yn darparu cyngor ar gymorth lles a dysgu trwy gydol eich cwrs.

- Llety
  Mae myfyrwyr yn cael symud i Neuaddau o ddydd Gwener 14 Medi ymlaen, ond dim ond rhai sydd wedi cwblhau'r broses ymrestru'n llwyddiannus fydd yn cael cysylltiad â'r we. Cynhelir digwyddiadau o'r adeg y byddwch yn cyrraedd a thrwy gydol y cyfnod Ymsefydlu. Bydd yr Adran Llety yn anfon manylion atoch pan fyddant wedi'u cadarnhau.

- Gwasanaethau Myfyrwyr
  Cymorth yn ystod eich amser gyda ni ynglŷn â'ch iechyd, eich lles, eich ffordd o fyw a'ch gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw darparu'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i sicrhau bod eich cyfnod astudio mor bleserus a llwyddiannus â phosib. Mae gwasanaethau cwnsela, anabledd a chaplaniaeth ar gael hefyd.

- Cyllid Myfyrwyr
  Gwybodaeth am Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliaeth, grantiau nad oes angen eu had-dalu, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau a all fod ar gael.

**Dolenni Defnyddiol**

- Cyfleusterau a Chwaraeon Met Caerdydd
- Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd *gan gynnwys gwybodaeth a bandiau llewys Wythnos y Glas*
- Dyddiadau'r Tymhorau
- Mapiau o'r Campws, Cabanau Beiciau a MetRider
  Mae gan Met Caerdydd ei wasanaeth bws ei hun o'r enw Met Rider. Byddwn yn anfon cais atoch gyda'ch Gwybodaeth Ymsefydlu ac Ymrestru. Mae gennym lefydd cadw beiciau ar bob campws hefyd, a chyfleusterau newid a chawodydd. Mae'r cabanau wedi'u cloi, a'r unig ffordd o'u defnyddio yw gyda'ch cerdyn MetCard ar ôl i chi gael caniatâd drwy'r parth gwybodaeth i-zone.
- Cynllun Tacsis Diogel
  Mae Met Caerdydd yn gweithredu cynllun Tacsis Diogel ar y cyd â Dragon Taxis, sy'n sicrhau bod gennych ffordd o gyrraedd adref bob amser.
- Rhithdeithiau
  Cymrwch gip arall ar ein campws a'n cyfleusterau gyda'n rhithdeithiau tywysedig.
- Llawlyfr Myfyrwyr
- Llawlyfr Academaidd
- Partneriaeth Santander a changen y campws
  Bydd cyfle i fyfyrwyr agor cyfrif Santander yn ystod Ffair y Glas. Bydd angen prawf adnabod â llun ohonoch i wneud hyn.
- Polisi Derbyn